TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Diploma mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn Lefel 2



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn gwella eich gwybodaeth dechnolegol ac academaidd am dechnoleg cerbydau, yn eich paratoi ar gyfer astudiaethau pellach neu waith yn y diwydiant modurol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych wedi cwblhau'r Diploma Lefel 1 mewn Cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau ysgafn

... Mae gennych ddiddordeb brwd mewn cerbydau

... Rydych yn dda am ddatrys problemau

... Rydych eisiau gweithio yn y diwydiant modurol.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd y cwrs hwn yn cynnig astudiaeth ganolradd o'r dechnoleg a thechnegau atgyweirio sy'n gysylltiedig â cherbydau ysgafn, a bydd hefyd yn eich paratoi ar gyfer astudiaethau pellach yn y diwydiant modurol.

Mae pum uned dechnegol wedi'u rhannu i dechnoleg fframiau, technoleg injan, technoleg trosglwyddo, technoleg drydanol ac electronig, ac agweddau cyffredinol (fel iechyd a diogelwch)

Darperir y cwrs drwy:

Arddangosiadau ymarferol
Tasgau gweithio realistig
Darlithoedd i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol
Gwaith aseiniad

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig, ac ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Lefel 2 mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn
Cymwysterau ategol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs hwn, mae angen ichi gwblhau Lefel 1 mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn neu ddiploma Lefel 1 gyfwerth, a byddwch angen TGAU Mathemateg a Saesneg ar radd D neu uwch, neu fod wedi cwblhau eich cwrs sgiliau'n foddhaol.

Gallwch hefyd ymuno os ydych wedi cwblhau Lefel 2 Gosod Cerbydau Cyflym yn llwyddiannus gyda Theilyngdod ac wedi cwblhau eich cwrs sgiliau'n foddhaol.

Mae hefyd opsiwn ichi ddod ar y cwrs yn uniongyrchol, gyda 4 TGAU gradd D, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl ichi gwblhau'r cwrs Lefel 2 hwn yn llwyddiannus, gallwch symud ymlaen at y Diploma Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw Cerbydau Ysgafn neu Brentisiaeth mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol priodol, fel esgidiau ac oferôls, a fydd yn costio oddeutu £40.00. Hefyd, bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu a'ch ffolderi eich hun.